# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad: **Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ebrill 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Ymchwiliad i Urddas a Pharch

(9.30 - 9.45) (Tudalennau 1 - 3)

## 3 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(9.45 - 9.50) (Tudalennau 4 - 5)

## 4 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(9.50 - 9.55) (Tudalennau 6 - 18)

## 5 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(9.55 - 10.10)

## 6 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.10 - 10.25)

## 7 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.25 - 10.40)

## 8 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.40 - 11.00)

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/94/2024

Vikki Howells AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru

SeneddStandards@senedd.wales

13 Mawrth 2024

Annwyl Vikki

Rwyf yn ysgrifennu mewn perthynas ag adolygiad arfaethedig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor y Bil Diwygio yn ei adroddiad Cyfnod 1 (argymhelliad 50), a dderbyniwyd gan y Pwyllgor mewn egwyddor yn ei ymateb cychwynnol i Bwyllgor y Bil Diwygio ar 22 Ionawr.

Trafodwyd gwelliannau yn ymwneud â'r mater hwn fel rhan o drafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau. Yn ystod y Cyfnod hwn addewais ysgrifennu at y Pwyllgor i dynnu ei sylw at y gwelliannau canlynol, ac i ofyn i'r Pwyllgor roi ystyriaeth benodol i'r materion hyn fel rhan o'r gwaith a wnaed mewn ymateb i argymhelliad 50:

- gwelliannau 124 a 125 yn ymwneud â galw Aelodau o'r Senedd yn ôl, a gyflwynwyd gan Darren Miller AS, a
- gwelliant 126 yn ymwneud ag anghymhwyso Aelodau a gafodd ei euogfarnu o'r drosedd o dwyll, a gyflwynwyd gan Adam Price AS.

Er nad oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliannau fel y'u drafftiwyd bryd hynny, rwyf yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol sy'n sail i'r gwelliannau hyn, a'r atebolrwydd uwch ar yr Aelodau a fyddai'n deillio o'r gwelliannau. Penderfynais beidio â chefnogi'r gwelliannau oherwydd bod materion cymhleth a phwysig o'r fath yn gofyn am ystyriaeth lawnach nag y gall cyfnodau diwygio'r Bil hwn eu darparu, a chan fy mod yn ymwybodol o'r argymhelliad cysylltiedig i'ch Pwyllgor, a'r adolygiad arfaethedig gan eich Pwyllgor.

Nodaf hefyd i'r Pwyllgor Deisebau ystyried deiseb gysylltiedig (P-06-1386) yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth, gan benderfynu ysgrifennu at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y mater. Mae hyn yn bodoli ochr yn ochr â diddordeb sifil yn atebolrwydd gwleidyddion, gan gynnwys y gallu i alw aelodau yn ôl, a welir ar lefel genedlaethol ac ar lefel y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf o'r farn bod cyfraniadau'r Aelodau yn ystod dadl Cyfnod 2, ynghyd â'r ystyriaeth gan y Pwyllgor Deisebau yn rhoi hwb sylweddol i ystyriaethau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y materion hyn.

Yn ogystal, mae rhai Aelodau wedi codi mater gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyda mi. Nid yw gwiriadau safonol a gwiriadau uwch ar gael i Aelodau'r Senedd ar hyn o bryd (ni ellir gofyn ond am "wiriad sylfaenol"). Mae pryderon dealladwy nad yw hyn yn rhoi digon o sicrwydd i'r cyhoedd lle y mae Aelodau'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gall aelodau ofyn am wiriad safonol neu uwch pan fyddant yn ymgymryd â "gweithgaredd a reoleiddir", megis darparu gofal personol neu oruchwyliaeth reolaidd i blentyn neu oedolyn agored i niwed. Er hynny, mae'n bosibl i Aelodau ddod i gysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed drwy eu rôl fel cynrychiolydd etholedig, er enghraifft drwy ymweliadau ag ysgolion neu ysbytai. Gallai fod yn bosibl hefyd y gallai'r pŵer a'r ymddiriedaeth a ddelir gan yr Aelodau, fod yn agored i gamdriniaeth, yn y dwylo anghywir, heb fesurau diogelu ehangach. Gall y gallu i ofyn am wiriad DBS safonol neu uwch fod yn un ffordd i'r Aelodau ddangos eu bod yn agored ar y mater hwn. Er hynny, rwyf yn cydnabod mai'r Ysgrifennydd Cartref sy'n gallu newid yr offeryn statudol perthnasol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gynnwys ystyried y mater hwn fel rhan o'r gwaith arfaethedig ar atebolrwydd yr Aelodau, ac ystyried unrhyw gamau sy'n briodol yn ei farn ef.

Rwyf yn edrych ymlaen, felly, at ymgysylltu â'r Pwyllgor fel rhan o unrhyw ymchwiliad y mae'n dewis ei gynnal, ac at ei gasgliadau dilynol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Comisiynydd Safonau, er gwybodaeth iddo.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deisebau**
**–**
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Vikki Howells, MS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Pwyllgor
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Ebrill 2024

Annwyl Vikki,

P-06-1386 Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb yn hon cyfarfod ar 4 Mawrth 2024  a cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atochi dynnu sylw at y ddeiseb hon a gofyn iddi gael ei hystyried fel tystiolaeth wrth ystyried adalw Aelodau yn y dyfodol.

Yn sgil hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb.

Ceir mwy o fanylion am y ddeiseb, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth, ar ein gwefan: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42608

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch gyda'r tîm clercio os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 3

Barnwyd nad yw’r papur hwn yn addas i’w gyhoeddi yn unol â rheolau’r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Barnwyd nad yw’r papur hwn yn addas i’w gyhoeddi yn unol â rheolau’r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon